# IS-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mawrth, 3 Medi 2024** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.Sparks** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | R.Davies, S.Pursey, D.Howlett, M.John, M.Tierney, W.Lewis a/ac D.Cundy |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Tillman, D.Griffiths, S.Rees, D.Thomas, L.White, S.Davies, R.Lewis, S. Aldred-Jones, and T.Rees |

---

## 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Dywedodd y cadeirydd y gallai fod problemau o bosib gyda chworwm. Er mwyn sicrhau y gellir symud trwy'r eitemau'n gyflym, cytunodd y Cadeirydd i amrywio trefn yr agenda.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2024 fel cofnod gwir a chywir.

4. **DIWEDDARIAD AR BOLISI (DRAFFT) AC YMGYNGHORIAD Y CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL**

Ystyriodd yr Aelodau y diweddariad ar bolisi (drafft) ac ymgynghoriad y cynllun trafnidiaeth rhanbarthol fel y'i dosbarthwyd o fewn y pecyn agenda.

Amlinellodd swyddogion mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, y gwahanol ffrydiau gwaith sydd wedi'u datblygu a'r cynnydd a wnaed i aelodau. Ail bwrpas yr adroddiad yw ceisio cefnogaeth gan y pwyllgor ar y fframwaith polisi sydd wedi'i ddrafftio. Cadarnhaodd swyddogion fod y fframwaith polisi wedi ystyried y fframwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac maent wedi'i wneud yn berthnasol ar gyfer fframwaith lleol. Y pwrpas terfynol yw cymeradwyo'r rhaglen waith datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ddiwygiedig.

Nododd swyddogion fod yr amserlen yn heriol ond bod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud yn erbyn hyn. Dywedodd swyddogion fod llyfr o ddata wedi'i gynhyrchu a fydd yn helpu i ddeall y rhanbarth a'r effeithiau tebygol ar y rhwydwaith trafnidiaeth. Cadarnhaodd swyddogion fod llawer iawn o waith dadansoddi wedi'i wneud sy'n ystyried hygyrchedd i bwyntiau teithio allweddol yn y rhanbarth, gan ganolbwyntio'n bennaf ar amser teithio. Mae hefyd yn ystyried teithio llesol.

Cadarnhaodd swyddogion y bu adborth cadarnhaol ar yr achos o blaid newid gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi bod yn destun yr ymgynghoriad diweddar. Cafwyd 814 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebion hyn gan unigolion. Y ddwy thema allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriad oedd pryder ynghylch potensial mesurau teithio llesol y gallai'r cynllun eu cynnwys. Hefyd y gydnabyddiaeth yn yr ymgynghoriad efallai na fydd gofod teithio llesol yn addas i bawb, yn enwedig yn yr ardaloedd mwy gwledig. Yr ail thema oedd argaeledd a chost trafnidiaeth gyhoeddus; bysus a rheilffyrdd. Yn ogystal â hyn roedd pryder am amlder gweithrediad, y prisiau a godir a chwmpas y rhwydwaith. Roedd pryderon hefyd yn cynnwys cyfnewid effeithiol rhwng y rhwydweithiau bysus a rheilffyrdd.

Gweithgaredd allweddol a nodwyd dros yr wythnosau nesaf fydd ymgysylltu â rhanddeiliaid technegol. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno sy'n amlinellu'r gweithgareddau a gynhaliwyd, i'w ystyried yn ddiweddarach.

Ar hyn o bryd mae swyddogion yn y broses o nodi sail yr asesiad lles integredig. Ymgysylltir â'r cyrff statudol perthnasol i gytuno â dadansoddiad cwmpasu yr asesiad.

Nododd yr Aelodau fod y Bwrdd Teithio Llesol Annibynnol wedi cyhoeddi adroddiad am gerdded a beicio lle disgrifiwyd Cymru fel gwlad sy'n 'arafu cynnydd yn sylweddol' o ran annog pobl i gerdded a beicio. Er y cydnabuwyd bod yr adroddiad newydd gael ei gyhoeddi, gofynnodd yr aelodau pa ystyriaeth y rhoddir i'r adroddiad hwn i sicrhau bod y gwerth gorau yn cael ei gyflawni o ran cerdded a beicio?

Roedd swyddogion yn cydnabod na fydd yr opsiwn teithio llesol yn opsiwn a fydd yn addas i bawb. Bydd yn fwy perthnasol mewn rhai ardaloedd nag eraill. Mae'r fframwaith polisi wedi'i ddrafftio i adlewyrchu'r blaenoriaethau ar draws rhanbarth amrywiol. Er ei fod yn cydnabod cerdded a beicio, mae hefyd yn adlewyrchu'r angen i gynnwys y mathau eraill o deithio. Fodd bynnag, nododd swyddogion nad ydynt wedi gallu ystyried yr adroddiad yn fanwl eto. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn dilyn cyfeiriad polisi cenedlaethol o ran sut maen nhw'n gweithio tuag at y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r hyn y gallant wneud ceisiadau ar ei gyfer o ran cynlluniau cyfalaf wedi hynny.

Holodd yr Aelodau sut mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ystyried ei rôl wrth ddarparu teithio llesol ar draws y rhanbarth. Cydnabuwyd bod gan bob awdurdod unigol ei bolisïau ei hun ar hyn. Holodd yr Aelodau a oedd y Cyd-bwyllgor wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i beth fydd eu ffocws, er enghraifft a fyddant yn canolbwyntio ar brif lwybrau trawsffiniol allweddol neu brif lwybrau prifwythiennol ar gyfer datblygiad economaidd? Roedd yr aelodau o'r farn bod y Cyd-bwyllgor yn gatalydd i gynorthwyo gyda chyflwyno'r isadeiledd. Wrth ystyried rhwydwaith trafnidiaeth, mae'n bwysig bod person yn gallu cwblhau taith gyfan. Roedd yr Aelodau'n awyddus i ddeall faint o orgyffwrdd fyddai hyn yn ei olygu rhwng cylch gwaith yr awdurdod lleol o ran teithio llesol a chylch gwaith y Cyd-bwyllgor.

Cyfeiriodd yr Aelodau at adroddiad annibynnol y Bwrdd Teithio Llesol a nodwyd ei fod yn argymell defnyddio cyllid y llywodraeth yn y dyfodol i ganolbwyntio ar un neu ddwy dref ym mhob awdurdod lleol i sicrhau mwy o effaith. Fodd bynnag, nododd yr aelodau mai ardaloedd gwledig sydd angen cael eu cefnogi os yw'r Cynllun

Trafnidiaeth Rhanbarthol am gael effaith fawr a bod yn llwyddiannus, ac mae angen ystyried cyllid ar draws y rhanbarth.

Cyfeiriodd yr aelodau at faint o arian sy'n cael ei wario ar deithio llesol. Roedd yn peri pryder i rai aelodau ei bod yn ymddangos nad yw teithio llesol yn ystyried y rheini efallai nad ydynt yn gallu cerdded a beicio neu'r rheini sy'n cael trafferth wrth wneud hynny. Roedd yr aelodau o'r farn y dylai buddsoddiad fod yn fwy eang ac ystyried dulliau teithio eraill. Holodd yr aelodau a yw swyddogion yn cysylltu â'r gwasanaethau bysus mewn perthynas â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?

Awgrymodd yr Aelodau fod angen ymagwedd systematig sy'n cysylltu rhwng pob dull trafnidiaeth ac sydd wedi'i gwasgaru ar draws y rhanbarth. Mynegodd yr Aelodau eu pryder a'r gofyniad am ddiffiniad pellach ynghylch rhai o'r polisïau a amlinellwyd.

Amlinellodd swyddogion nad mater o fuddsoddiad cyfalaf yn unig fyddai ei angen er mwyn cael newid moddol. Mae elfen o waith i ddarparu'r isadeiledd, anogaeth ac ymwybyddiaeth o hyrwyddo y mae angen ei wneud. Er mwyn hyrwyddo teithio llesol mae angen newid moddol, i bobl fod yn gyfforddus i newid eu patrymau a gwneud rhywbeth anarferol o bosib. Mae'r newid hwn yn gofyn am newidiadau i'r isadeiledd, ac mae hefyd angen cyllid pellach ar gyfer yr adeilad a'r gwaith cynnal a chadw, er mwyn sicrhau bod pethau'n cael eu cynnal i safon dda.

Yn draddodiadol, roedd teithio llesol yn gysylltiedig â theithiau byrrach ac roeddent yn ymwneud â beicio a cherdded yn benodol. Fodd bynnag, mae elfen o normaleiddio teithiau llesol hirach yna bydd manteision sylweddol yn gyffredinol.

Mae yna neges glir gan Lywodraeth Cymru, bod yn rhaid blaenoriaethu dulliau trafnidiaeth cynaliadwy. Mae swyddogion y Cyd-bwyllgor yn ceisio dehongli'r polisïau a darparu argymhellion y gellir eu rhoi ar waith drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r cynlluniau amrywiol sydd gan awdurdodau lleol unigol.

Anogodd yr aelodau gydweithwyr i ddarllen yr arweiniad Teithio Llesol gan ei fod yn amlinellu mai nod teithio llesol yw sicrhau bod cymunedau'n hygyrch.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr aelodau yr adroddiadau cynnydd llafar a roddwyd gan swyddogion ar ffrydiau gwaith datblygiad y

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Roedd yr aelodau'n cefnogi fframwaith polisi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Roedd yr aelodau'n cefnogi'r rhaglen waith ddiwygiedig ar gyfer datblygiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

5. **STRATEGAETH CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT AR Y CYD - Y CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL**

Ystyriodd yr aelodau'r strategaeth gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar y cyd – y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, fel y'i dosbarthwyd o fewn y pecyn agenda.

Rhoddodd swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Cefnogodd yr Aelodau gymeradwyo'r Strategaeth Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar y cyd (Atodiad A), er mwyn galluogi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Rhanbarthol cyn ceisio cymeradwyaeth gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

6. **MONITRO ARIANNOL CHWARTER 1 24/25**

Ystyriodd yr Aelodau Adroddiad Monitro Ariannol Chwarter 1 24/25 fel y'i dosbarthwyd o fewn y pecyn agenda.

Aeth swyddogion drwy'r adroddiad. Tynnwyd sylw'r aelodau at atodiad A. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar fonitro ariannol chwarter 1 a'r sefyllfa a ragwelwyd ar gyfer diwedd blwyddyn 24/25. Roedd swyddogion yn ailadrodd y sefyllfa a ragwelwyd o ran arian dros ben ac arian wrth gefn a amlinellwyd yn yr adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai gweithdy yn cael ei gynnal yn yr hydref, lle byddai blaenoriaethau'r Cyd-bwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael eu trafod. Holodd yr aelodau a fyddant yn ystyried y gostyngiad yn yr ardoll ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod o ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn. Dywedodd swyddogion y gellir ystyried hyn yn ystod y gweithdy.

Holodd yr aelodau pwy oedd yn mynd i fod yn rhan o'r gweithdy. Mae swyddogion yn rhagweld y bydd yn cynnwys swyddogion ac aelodau

o'r grwpiau perthnasol. Dywedodd swyddogion y byddent yn hapus i fynd i gyfarfod y pwyllgor craffu yn y dyfodol i wrando ar farn yr aelodau ac yna'i throsglwyddo i'r gweithdy.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 7. BLAENRAGLEN WAITH 2024-2025

Dewisodd yr Aelodau yr eitemau canlynol i'w hychwanegu at y Flaenraglen Waith ar gyfer y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 14 Hydref 2024.

- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft, Arfarniad Lles Integredig a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol
- Safonau'r Gymraeg – Diweddariad ar Gydymffurfio
- Y Diweddaraf am y Gyllideb - Adroddiad Rhagarchwiliad
- Monitro Ariannol Chwarter 2 2024/25
- Polisi Ynni Rhanbarthol a Chyflwyno Sefyllfa De-orllewin Cymru – Cais am Gyllid Ynni

## 8. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**